

- nad dynt yn datgelu unrhyw wybodaeth o natur gyfrinachol a geir trwy'r Contract ac eithrio gwybodaeth sy'n eiddo i'r cyhoedd oni bo'n ofynnol oherwydd tor Amod 14 neu yn ôl y gyfraith.
- 14.2 Bydd darparu Amod 14 yn berthnasol yn ystod parhad y Contract ac wedi ei derfynu sut bynnag y coda a heb gyfyngiad amser.
- 14.3 Bydd y Contractwr yn cydymffurfio ag unrhyw a phob gofyniad dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac ni fydd yn datgelu nac yn caniatáu mynediad at unrhyw ddata personol fel y diffinir dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data ("Data Personol") a roddir neu a geir yn ystod tymor y Contract (ac eithrio pan roddir awdurdod iddo wneud hynny gan yr Awdurdod, mewn ysgriflen yn unol â chymal 14).
- 14.4 Bydd y Contractwr yn defnyddio, datgelu neu'n caniatáu mynediad at unrhyw ddata a geir o ganlyniad i'r Contract yn unol â chyfarwyddiadau llym y Cyngor ac i'r graddau sy'n benodol angenrheidiol at ddibenion y Contract.
- 14.5 Bydd y Contractwr yn storio neu'n prosesu Data Personol a roddir o ganlyniad i'r Contract yn unig mewn safle y cytuna'r partion amon mewn ysgriflen o flaen llaw a bydd yn cynmyd mesurau technegol a threfniadol priodol yn erbyn prosesu Data Personol yn anghyfreithlon a heb awdurdod, ac yn erbyn colli Data Personol yn ddamweiniol, ei ddinistrio neu ei ddifodi.
- 14.6 Ni fydd y Contractwr yn achosi nad yn caniatáu i Ddata Personol gael ei drosglwyddo y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop heb gysylltiad blaenorol y Cyngor.
- 14.7 Pan yw'r Contractwr yn prosesu'r Data Personol fel rhan o'r Contract, bydd y Contractwr yn mynd i gytundeb Prosesu Data.
- 15. TERFYNU**
- 15.1 Gall y Cyngor derfynu'r Contract trwy roi o leiaf 30 diwrnod o rybudd i'r Contractwr yn ysgrifenedig.
- 15.2 Mewn achos tor amod y Contract gan y naill barti, gall y parti na thorodd amod gyflwyno rhybudd i'r llall yn gofyn iddo wneud yn iawn am y tor amod o fwn cyfnod a benodir yn y rhybudd, a fydd yn rhesymol ym mhob amgylchiad. Os na wneir yn iawn am y tor amod erbyn diwedd y cyfnod a nodir, caiff y parti na thorodd amod derfynu'r Contract yn syth trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig.
- 15.3 Mewn achos tor sylweddol amod yn y Contract gal y naill barti, caiff y parti arall derfynu'r Contract yn syth trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig.
- 15.4 Caiff y Cyngor derfynu'r Contract yn syth trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r Contractwr os ar unrhyw adeg:-
- 15.4.1 yw'r Contractwr yn pasio penderfyniad y caiff ei ddinwyrn i ben neu os oes cais wedi ei wneud am orchymyn gweinyddu neu os yw'r Contractwr yn gwneud cais i fynd i gytundeb gwirfoddol â'r credydwy;
- 15.4.2 yw derbynnydd, diddymwr, gweinyddwr, goruchwylydd neu dderbynnydd gweinyddol yn cael ei benodi ar gyfer eiddo, asedau neu unrhyw ran ohonynt sy'n eiddo i'r Contractwr;
- 15.4.3 yw'r llym yn gorchymyn dirwyn y Contractwr i ben neu'n gorchymyn penodi derbynnydd y cyfan neu ran o asedau'r Contractwr;
- 15.4.4 yw'r Contractwr yn methu â thalu ei ddyledion yn unol ag Adran 123 Deddf Ansolfedd 1986;
- 15.4.5 yw'r Contractwr (yn unigolyn neu'n bartneriaeth) yn cael ei ddatgan neu ei ddyfarnu'n fethdalwr neu'n mynd i unrhyw dreftiant neu gyfansoddiad â'i gredydwy;
- 15.4.5 oes newid ym mherchnogaeth gyfreithiol neu fuddiant 50% neu ragor o gyfalaf cyfrannau'r Contractwr a gyflwynwyd ar ddyddiad y Contract neu mae newid yn rheolaeth o'r Contractwr. At ddibenion yr Is Amod hwn, 15.4.5 y "rheolaeth" yw grym person i sicrhau bod materion y Contractwr yn cael eu trafod yn unol â dymuniadau'r person hynny trwy ddull dal y cyfranddaliadau neu'r grym pleidleisio;
- 15.4.6 yw'r Contractwr yn ei gael yn euog (neu os yw'n gwmni, unrhyw swyddogion neu gynrychiolwyr) o drosedd sy'n gysylltiedig â'r busnes neu ymddygiad profesiynol;
- 15.4.7 yw'r Contractwr (neu os yw'n gwmni, unrhyw swyddog neu gynrychiolwr y Contractwr) yn gwneud gweithred sy'n cynrychioli camymddygiad difrifol yng nghws y busnes;
- 15.4.7 yw'r Contractwr (neu os yw'n gwmni, unrhyw swyddogion neu gynrychiolwyr y Contractwr) yn peidio â datgelu unrhyw gamwrio difrifol wrth gyflwyno gwybodaeth y mae ar y Cyngor ei angen neu yn unol â'r Contract;
- 15.4.8 yw gweithredoedd y Contractwr yn dwyn anfrif ar y Cyngor.
- 15.5 Ni fydd unrhyw beth yn Amod 15 yn effeithio ar unrhyw ddarpariaeth yn y Contract yn dod i rym neu'n parhau mewn grym y bwriedir yn furfiol neu yr awgrymir mai'r bwriad yw y daw i rym neu aros mewn grym ar ddiwedd y Contract.
- 15.6 Pan ddaw'r Contract i ben am unrhyw reswm, bydd y Contractwr yn:
- 15.6.1 ildio pob hawl i ddefnyddio unrhyw hawliau eiddo deallusol sydd gan y Cyngor;
- 15.6.2 dychwelyd yr holl ddogfennau a gwybodaeth (ar fwrdd ddifraethol neu anniriaethol) sy'n eiddo i'r Cyngor a bydd yn dinistrio holl gopïau dogfennaeth felly neu wybodaeth sy'n berthnasol i neu a gaiff ei gyflwyni gan y Cyngor i'r Contractwr at ddibenion y Contract ac sydd ym meddiant, dan rym neu reolaeth y Contractwr.

16. ASEINIO AC IS-GONTRACTIO

- 16.1 Caiff y Cyngor aseinio, trosglwyddo neu is-gontractio'r Contract neu fargen mewn unrhyw ddull arall ag unrhyw un neu bob un o'r hawliau a'r gofynion sydd dan y Contract.

16.2 Ni fydd y Contractwr yn aseinio, trosglwyddo neu yn is-gontractio unrhyw ran o'r Contract heb gael cydsyniad ysgrifenedig y Cyngor o flaen llaw. Ni fydd is-gontractio unrhyw ran o'r Contract yn diddymu unrhyw un o ofynion y Contractwr sydd amon dan y Contract.

16.3 Os yw'r Cyngor wedi cydsynio i osod is-gontractau, bydd y Contractwr yn anfon copïau o bob is-gontract i'r Cyngor yn syth, pan gaiff ei ddiwelu. Ni fydd unrhyw awdurdod a roddir gan y Cyngor i'r Contractwr is-gontractio'r Contract (neu unrhyw ran ohono) yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymholi ynghylch cymhwyster unrhyw is-gontractwr ag awdurdod ond bydd y Contractwr yn sicrhau bod unrhyw is-gontractwr yn gymwys a bod y gwaith yn cael ei wneud yn gywir.

17. HYSBYSIADAU

Bydd yn rhaid danfon unrhyw hysbysiad a roddir dan y Contract yn personol neu ei anfon trwy'r post neu trwy drosglwyddo copi uniongyrchol i gynrychiolydd y Cyngor neu i'r cyfeiriad sydd yn y Contract (yr achos hwn, y Contractwr). Ystyri'r bod unrhyw rybudd felly wedi ei gyflwyno os caiff ei gyflwyno'n personol, ar amser y danfon; os caiff ei anfon trwy'r post, 48 ar wedi ei bostio; neu os caiff ei drosglwyddo trwy gopi uniongyrchol, 12 awr wedi ei drosglwyddo'n iawn.

18. HAWLIAU TRYDYDD PARTÏON

Ni fwriedir bod y Contract yn creu unrhyw hawliau o unrhyw fath y gellid eu gorfodi gan unrhyw berson nad yw'n barti i'r Contract (yn cynnwys unrhyw hawliau y gellid eu gorfodi dan y Ddeddf (Hawliau Trydydd Partion) Contractwr 1999).

19. TORADWYEDD

Os yw unrhyw ddarpariaeth dan y Cyngor yn, neu'n dod yn anorfodadwy, yn ofer neu'n annillys, ni fydd y ddarpariaeth honno yn effeithiol ac ni ystyri'r ei bod wedi ei thori oddi wrth weddill y Contract, felly bydd gweddill y Contract a rhan y ddarpariaeth na effeithir arni yn parhau i fod yn gwbl orfodadwy.

20. ILDIO HAWL

Ni fydd y Cyngor yn oedi na pheiddio ag arfer ei hawliau dan y Contract yn cyfrif fel lloidi'r hawl honno ac ni fydd arfer hawl yn rhannol yn atal arfer yr hawl eto yn y dyfodol.

21. GWAHANIAETHU

21.1 Ni fydd y Contractwr yn gwahaniaethu yn anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas unrhyw gyfraith, deddfwriaeth, gorchymyn neu reolial sy'n berthnasol i wahaniaethu (o ran lli, rhyw, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu fel arall) mewn cyflogaeth.

21.2 Bydd y Contractwr yn cynmyd yr holl gamau rhesymol i sicrhau cydymffurfio â chymal 21.1 gan bob gweinydd, cyflogai ac asiant y Contractwr a'r holl gyflenwyr ac isgontractwr y gyflogir wrth weithredu'r Contract.

22. RHYDDID GWYBODAETH

22.1 Mae'r Contractwr yn cydnabod bod y Cyngor yn ddarostyngedig i ofynion y Cod Ymarfer ar Lywodraethu Gwybodaeth, DRhG a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a bydd yn cynorthwyo ac yn cydweithio â'r Cyngor i roi'r galluedd gydymffurfio â'r gofynion datgelu gwybodaeth sydd amon.

22.2 Bydd y Contractwr yn gwneud, ac yn sicrhau bod ei is-gontractwr yn gwneud y canlynol:

22.2.1 trosglwyddo i'r Cyngor bob Cais am Wybodaeth y mae'n eu derbyn cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn dau Ddiwrnod Gwaith wedi derbyn Cais am Wybodaeth;

22.2.2 rhoi copi i'r Cyngor o'r holl Wybodaeth sydd yn ei feddiant, neu'r grym ar y ffurf y mae'n gofyn amdani o fewn Pum Nwmod Gwaith (neu'r cyfnod arall y mae'r Cyngor yn manylu) wedi cais y Cyngor; a

22.2.3 rhoi'r holl gymorth angenrheidiol y mae'r Cyngor yn gwneud cais amdano yn rhesymol er mwyn rhoi gallu i'r Cyngor ymateb i'r Cais am Wybodaeth o fewn yr amser ar gyfer cydymffurfio fel y nodir yn adran 10 y DRhG neu reolial 5 y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

22.3 Bydd y Cyngor yn gyfrifol am benderfynu, gyda'r holl ddisgresiwn ac er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall, a yw Gwybodaeth yn cael ei heithrio rhag ei datgelu yn unol â ddarpariaethau'r Cod Ymarfer ar Lywodraethu Gwybodaeth, DRhG neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

22.4 Ni fydd y Contractwr, mewn unrhyw achos, yn ymateb yn uniongyrchol i gais am Ryddid Gwybodaeth ac eithrio os caiff awdurdod i wneud hynny gan y Cyngor.

22.5 Mae'r Contractwr yn cydnabod y gall bod gofyniad ar y Cyngor (er gwaethaf ddarpariaethau Cymal 22), wrth ymddywyr yn unol â Chod Ymarfer Cyngor Materion Cyfansoddiadol ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus dan Ran 1 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Cod"), dan DRhG neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol i ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Contractwr neu'r Project.

22.5.1 mewn rhai amgylchiadau heb ymgynghori â'r Contractwr; neu

22.5.2 yn dilyn ymgynghoriad â'r Contractwr ac wedi ystyried eu barn;

22.5.3 cyhyd â bod 22.5.1 yn berthnasol, bydd y Cyngor, yn unol ag unrhyw argymhellion y Cod, yn cynmyd camau rhesymol pam fo'n addas, i roi hysbysiad o flaen llaw i'r Contractwr, neu os na wnaiff hynny, tynnu sylw'r Cyngor at y datgeliad wedi'r datgeliad.

22.6 Bydd y Contractwr yn sicrhau y cedwir yr holl Wybodaeth i'w ddatgelu a bydd yn caniatáu i'r Cyngor archwilio cofnodion y gofynna amdanynt o bryd i'w gilydd.

23. Y GYMRAEG

Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â holl ofynion perthnasol Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") a safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd (Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)

pan fo'n berthnasol i ddarparu'r Gwasanaethau. Mae copi o safonau'r Gymraeg ar gael yn <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cynqor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Caerdydd-Ddwieithog/Pages/default.aspx>

24. ANGHYDFOD

Heb amharu ar Amod 25 isod, os oes anghydfod yn codi o, neu mewn cysylltiad â'r Contract rhwng y partion a bydd y Partion yn ymgynghori yn ddidwyl i geisio â datrys yr anghydfod.

25. CYFRAITH AC AWDURDOD

Caiff y Contract ac unrhyw anghydfod sy'n codi oddi tano neu mewn cysylltiad mewn unrhyw ffordd â thestun y Contract (o natur contract neu gamweddau neu fel arall) eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â Chyfraith Cymru a Lloegr ac mae'r partion yn ildio i awdurdod llysoedd Cymru a Lloegr.